Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Adolygiad Polisi Anghenion Addysgol Arbennig

Holiadur Ymgynghori

Trosglwyddo

Cefndir: Mae'r Pwyllgor yn cynnal adolygiad o'r polisi anghenion addysgol arbennig. Rydym wedi cwblhau cam cyntaf ac ail gam yr adolygiad. Roedd y cyntaf yn canolbwyntio ar ddarganfod yr arwyddion ac ymyrryd yn gynnar ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2004. Roedd yr ail yn canolbwyntio ar asesu statudol ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mai eleni.

Bellach , rydym wrthi'n cynnal trydydd cam yr adolygiad, sef yr olaf. Bydd hwn yn trafod materion trosglwyddo; Trosglwyddo o'r ysgol i Addysg Bellach ac Addysg Uwch a throsglwyddo i fyd gwaith. Mae gennym ddiddordeb yn anghenion neilltuol y myfyrwyr hynny sydd ag anghenion addysgol arbennig wrth iddynt adael addysg uwchradd, a'r problemau sydd o bosibl yn eu hwynebu wrth symud i addysg bellach/addysg uwch, hyfforddiant neu waith.

Hoffem glywed oddi wrth unrhyw un sydd â diddordeb yn y pwnc hwn. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed barn rhieni/gofalwyr, brodyr/chwiorydd a pherthnasau eraill plant a phobl ifainc sydd ag anghenion addysgol arbennig, a'r bobl broffesiynol hynny sydd yn helpu pobl ifainc wrth iddynt adael addysg a gynhelir.

Mae'r holiadur byr hwn yn gofyn am eich barn am y gwasanaeth a ddarperir. Bydd y syniadau a fynegir yn yr holiadur hwn yn gymorth i'r Pwyllgor wrth drafod y pwnc.

Cyswllt: Steve George (Clerc y Pwyllgor)
Y Gwasanaeth Pwyllgor
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 029 2089 8164
e-bost: steve.george@wales.gsi.gov.uk

Ymatebion: Dylid anfon y rhain at Joel Steed yn y cyfeiriad uchod erbyn 2 Hydref 2006. Efallai na fydd hi'n bosibl cynnwys ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Canlyniad: Bydd canlyniadau'r ymgynghori hwn yn cael eu cynnwys mewn adroddiad Pwyllgor fydd yn amlygu prif bwyntiau'r wybodaeth a gafwyd ac yn cyflwyno argymhellion i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Bydd dadl ar yr adroddiad hwn yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol a bydd y Gweinidog yn ymateb ar ran Llywodraeth y Cynulliad cyn pen dau fis.

Dalier sylw:

- Dylai'ch ymateb fod yn fyr ac yn berthnasol;

- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn arfer cyhoeddi tystiolaeth naill ai o fewn yr adroddiad, neu'n atodol iddo. Ni fyddwn yn cyhoeddi, heb sicrhau caniatâd, unrhyw dystiolaeth sydd yn ein barn ni yn ddata personol, megis enwau neu fanylion cyswllt, oni bai bod y manylion hynny yn cyfeirio at sefydliad.

- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu o fewn Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

- Os anfonir unrhyw wybodaeth, ar wahân i ddata personol, nad yw ym marn y sawl sy'n ei hanfon yn addas i'w datgelu i'r cyhoedd, cyfrifoldeb y sawl sy'n ei hanfon yw nodi pa ran(nau) o'r wybodaeth sy'n anaddas a darparu rhesymau i gefnogi'ch safbwynt. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi'r dystiolaeth yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

- Efallai y bydd angen, o dderbyn cais am wybodaeth, inni ddatgelu gwybodaeth a gawsom fel tystiolaeth, cyfathrebiad neu ar ffurf ysgrifenedig arall. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a dynnwyd allan gan y Cynulliad Cenedlaethol o'r blaen cyn cyhoeddi.

- Dangoswch ai ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad a wnewch.

Cylch Gorchwyl

Bydd y Pwyllgor:

- Yn adolygu'r trefniadau trosglwyddo ar gyfer myfyrwyr ôl-16 sydd ag anghenion addysgol arbennig wrth iddynt symud o addysg uwchradd i addysg bellach/uwch neu gyfleoedd hyfforddi gan gynnwys y Rhaglen Sgiliau Byw'n Annibynnol; yn nodi enghreifftiau o arferion da;

- Yn edrych ar gyfleoedd gwaith ym maes cyflogaeth gysgodol a meysydd agored, gan gynnwys argaeledd lleoliadau gwaith ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth drwy Gymru gyfan, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.;

- Yn adolygu'r broses o Gynllunio'r Trosglwyddo o'r ysgol i fywyd fel oedolyn fel y'i ceir yng Nghòd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig, ac effeithiolrwydd trefniadau gweithio aml-asiantaeth;

- Yn archwilio partneriaethau a chynllunio ar y cyd ar gyfer y trosglwyddo ymysg sefydliadau perthnasol yn y sector cyhoeddus (ym maes hyfforddi, cyflogi, gyrfaoedd a iechyd), a chydag asiantaethau elusennol a gwirfoddol;

- Yn ystyried goblygiadau'r materion uchod ar gyfer darpariaeth a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg; ac

- Yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog ar sut y gellid gwella'r trefniadau trosglwyddo presennol.

Rhan 1 Amdanoch chi

Er mwyn ein helpu ni i weld a oes patrwm i ymatebion pobl i'r holiadur, a wnewch chi ateb y cwestiynau byr sy'n dilyn cyn symud ymlaen i roi eich barn.

Ticiwch y blychau priodol:

Cwestiwn 1 – A ydych yn…?

☐	Wryw
☐	Fenyw
☐	Ddisgybl neu'n fyfyriwr ag anghenion addysgol arbennig
☐	Rhiant/warchodwr i ddisgybl/ myfyriwr ag anghenion addysgol arbennig
☐	Dilyn gyrfa ym maes Addysg
☐	Llenwi'r holiadur ar ran sefydliad
☐	Gwneud rhywbeth arall (rhowch fanylion)

Cwestiwn 2 – Nodwch eich awdurdod lleol

Cartref:	
Lle astudio (os yn berthnasol) :	

Cwestiwn 3 – Dangoswch eich oedran

☐	Dan 14
☐	14-19
☐	20-24
☐	25-34
☐	35-44
☐	45-54
☐	55-64
☐	Dros 65

Cwestiwn 4 – Nodwch eich dewis iaith

☐	Saesneg
☐	Cymraeg
☐	Arall (manylion):

Dros y ddalen mae 4 cwestiwn arall sy'n gofyn eich barn am y lefel o wasanaeth a geir yng Nghymru. **Diolch yn fawr**.

Cwestiwn 5 - Trosglwyddo

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yn eich barn ynghylch myfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig sy'n gadael addysg uwchradd ac yn mynd i addysg bellach, addysg uwch neu i dderbyn hyfforddiant?

Beth yw'r prif bryderon ar adeg y trosglwyddo? Nodwch hyd at dri phwynt :

1		
2		
3		

Sylwadau byrion eraill, gan gynnwys enghreifftiau o arferion da:

Cwestiwn 6 - . Cyfleoedd Cyflogaeth

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed am brofiadau a phryderon (o du'r cyflogwyr a'r gweithwyr) ynghylch cyfleoedd cyflogaeth gysgodol ac agored gan gynnwys lleoliadau gwaith..

Beth, yn eich barn chi, yw'r prif feini tramgwydd neu broblemau ynghylch cyfleoedd cyflogaeth? Nodwch hyd at dri phwynt ym mhob achos:

a.) I'r gweithwyr/myfyrwyr

1		
2		
3		

b.) I gyflogwyr

1		
2		
3		

Sylwadau byrion eraill, gan gynnwys enghreifftiau o arferion da:

Cwestiwn 7 – Ieithoedd Cymru

Mae'r Pwyllgor am drafod materion ynghylch darparu gwasanaethau i fyfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig mewn ieithoedd eraill heblaw Saesneg.

Beth, yn eich barn chi, yw'r prif faterion ynghylch darparu gwasanaethau mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg, wrth i fyfyrwyr symud o addysg uwchradd? Nodwch hyd at dri phwynt:

1		
2		
3		

Sylwadau byrion eraill, gan gynnwys enghreifftiau o arferion da:

Cwestiwn 8 – Cynllun Trosglwyddo

MAE'R CWESTIWN HWN AR GYFER Y RHAI SYDD Â PHROFIAD O GYNLLUN TROSGLWYDDO

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y broses o Gynllunio'r Trosglwyddo, ac yn enwedig yn effeithiolrwydd y lliaws asiantaethau a allai chwarae rhan wrth i fyfyriwr adael addysg uwchradd.

Beth, yn eich barn chi, yw'r pethau amlycaf sydd angen sylw? Nodwch hyd at dri ohonynt:

1		
2		
3		

Sylwadau byrion eraill, gan gynnwys enghreifftiau o arferion da:

Diolch ichi am roi o'ch amser i ymateb.

Manylion cyswllt*

Enw:

Sefydliad:

Cyfeiriad:

E-bost:

* Nid oes rhaid rhoi manylion cyswllt os nad ydych yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, byddai o gymorth i ni petai'r manylion hyn gennym, yn enwedig pan fyddwch yn llenwi'r holiadur ar ran corff cynrychioliadol neu sefydliad arall. Anfonir copïau o adroddiad terfynol y Pwyllgor at y bobl/ cyrff hynny sydd wedi rhoi manylion cyswllt.

Ymatebion: Dylid anfon y rhain at Joel Steed yn y cyfeiriad isod erbyn 2 Hydref 2006.

Y Gwasanaeth Pwyllgor
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 029 2089 8164
e-bost: joel.steed@wales.gsi.gov.uk